

Y Pwyllgor Cyllid

Y Bil Cyllid Troseddol – Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Rhagfyr 2016



Cyflwyniad

Ar 17 Tachwedd 2016, trafododd y Pwyllgor Cyllid femorandwm cydsyniad deddfwriaethol ('y memorandwm') sy'n ymwneud â darpariaethau ym Mil Cyllid Troseddol y DU.

Mae Bil Cyllid Troseddol Llywodraeth y DU ('y Bil') yn cael ei ystyried gan Senedd y DU ar hyn o bryd.

Bydd adrannau o'r Bil hwn yn deddfu mewn meysydd cymhwysedd sydd wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. O dan Reol Sefydlog 29.2, rhaid i aelod o'r llywodraeth osod memorandwm mewn perthynas ag unrhyw Fil Llywodraeth y DU sy'n Fil perthnasol.

Gosodwyd y memorandwm gerbron y Cynulliad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ("Ysgrifennydd y Cabinet") ar 1 Tachwedd 2016.

Ceisir cydsyniad y Cynulliad ar gyfer cymal 37 o'r Bil – methiant i atal hwyluso troseddau efadu trethi'r DU

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4, mae'r Pwyllgor Busnes wedi trosglwyddo'r memorandwm hwn i'r Pwyllgor Cyllid i'w ystyried. Wrth wneud hynny, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar y memorandwm erbyn 8 Rhagfyr 2016.

Bydd y Cynulliad yn trafod y memorandwm yn y Cyfarfod Llawn ar 13 Rhagfyr 2016.

Bwriad polisi

Mae'r memorandwm yn nodi amcanion polisi'r Bil:

Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw rhoi i asiantaethau gorfodi'r gyfraith, a'u partneriaid, y galluoedd a'r pwerau i adennill enillion troseddau, mynd i'r afael â gwyngalchu arian a llygredd, ac ariannu gwrthderfysgaeth.

Nod y mesurau yn y Bil yw: gwella cydweithredu rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat; gwella'r ymateb o ran gorfodi cyfraith y DU; gwella'r gallu i adennill enillion troseddau, gan gynnwys llygredd rhyngwladol; a mynd i'r afael ag ariannu terfysgaeth.



Bydd Cymal 37 o'r Bil yn ei gwneud yn drosedd i gorff perthnasol (corff corfforaethol neu bartneriaeth) fethu ag atal hwyluso trosedd efadu trethi'r DU (megis twyllo refeniw cyhoeddus, neu efadu trethi drwy dwyll).

Mae'r drosedd arfaethedig hon yn berthnasol i Gymru gan y bydd y diffiniad o "UK tax evasion offence" yn ymestyn i gynnwys troseddau o efadu trethi datganoledig.

I'r graddau y mae'n ymwneud â threthi datganoledig, mae cymal 37 yn ymwneud â phwnc trethi datganoledig o dan baragraff 16A o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Tystiolaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud yn y memorandwm ei bod yn cefnogi creu'r drosedd newydd ac y bydd gwneud y darpariaethau hyn i Gymru yn y Bil yn sicrhau y gall y DU yn ei chyfanrwydd ddefnyddio dull cyson i fynd i'r afael ag efadu trethi.

Holodd y Pwyllgor Ysgrifennydd y Cabinet ar y darpariaethau yn y Bil ar 3 Tachwedd 2016. Eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid gofyn i'r Cynulliad Cenedlaethol roi ei gydsyniad i'r darpariaethau y deddfir ar eu cyfer yn y Bil hwn, ond ei fod yn gwneud synnwyr i ganiatáu i'r ddeddfwriaeth fynd rhagddi fel y cynigiwyd:

"we have informed the Home Office that we will be bringing an LCM to the floor of the Assembly, although on the substantive issue, I think we conclude that it does make sense to allow the legislation to proceed as proposed, but that's an argument that will have to be made on the floor of the Assembly to see if others agree."¹

Casgliad

Er y byddai'r Pwyllgor yn awyddus i weld Llywodraeth Cymru yn deddfu mewn meysydd y mae gan y Cynulliad gymhwysedd ynddynt, yn enwedig o ystyried y ddeddfwriaeth ar drethi sydd gerbron y Cynulliad ar hyn o bryd, mae wedi ystyried y sefyllfa a amlinellwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet ac yn cael ei ddarbwylllo gan y dystiolaeth fod mynd i'r afael ag efadu trethi ar sail y DU gyfan yn briodol. Felly, mae'r Pwyllgor yn

¹Cofnod y Trafodion, [Y Pwyllgor Cyllid, 3 Tachwedd 2016, paragraff 492](#)



argymell fod y Cynulliad yn cydsynio i'r darpariaethau a nodwyd yn y Memorandwm fel sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 29.6.

